REES, WILLIAM ('Gwilym Hiraethog'; 1802-1883), gweinidog Annibynnol, llenor, golygydd, ac arweinydd cymdeithasol

Enw: William Rees
Ffugenw: Gwilym Hiraethog
Dyddiad geni: 1802
Dyddiad marw: 1883
Priod: Ann Rees (née Edwards)
Plentyn: Anne Rees
Plentyn: Mary Rees
Plentyn: Henry Rees
Rhiant: Ann Rees
Rhiant: David Rees
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog Annibynnol, llenor, golygydd, ac arweinydd cymdeithasol
Maes gweithgaredd: Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol; Argraffu a Chyhoeddi
Awduron: Thomas Eirug Davies, Robert Thomas Jenkins

Ganwyd yn Chwibrenisaf, fferm wrth droed Mynydd Hiraethog, plwyf Llansannan, sir Ddinbych, 8 Tachwedd 1802, ail fab Dafydd ac Ann Rees - ei frawd hyn oedd Henry Rees, gweinidog amlwg gyda'r Methodistiaid Calfinaidd. Hanoedd ei daid ar ochr ei dad o Landeilo Fawr, ond o'r Wenvo, Morgannwg, y daeth yn gyllidydd i Lansannan, a phriodi Gwen Llwyd, etifeddes Chwibren-isaf, yn disgyn o Hedd Molwynog. Ychydig aeafau yn ysgol y pentref oedd yr unig addysg a gafodd, a throes i amaethu a bugeilio'n ifanc, ond ymroes i'w ddiwyllio'i hun, a than gyfarwyddyd Robert ap Dafydd o'r Gilfach Lwyd, hen lanc o amaethwr a chymydog iddo, dysgodd y gynghanedd, ac enillodd ar gywydd yn eisteddfod Aberhonddu yn 1826, i 'Buddugoliaeth Trafalgar a Marwolaeth y Penllywydd Nelson,' camp a'i dug i'r amlwg.

Magwyd ef gyda'r Trefnyddion Calfinaidd, ond derbyniwyd yn aelod gan yr Annibynwyr pan gychwynasant achos yn Llansannan yn 1828. Galwyd ef i bregethu'n fuan, ac aeth yn weinidog i Mostyn yn 1831. Symudodd i Lôn Swan, Dinbych, yn 1837, a daeth i fri mawr fel pregethwr. Yn 1843, aeth i'r Tabernacl, Lerpwl, yn olynydd i'w gyfaill William Williams o'r Wern, ac i Salem, yn yr un dref, yn 1853, a chodwyd capel Grove Street yn ei le yn 1867. Ymddeolodd yn 1875, gan drigo yng Nghaer hyd ei farw, 8 Tachwedd 1883; claddwyd yn Smithdown Road Cemetery, Lerpwl. Bu'n briod ag Ann Edwards (a fu farw 1874), Waunddilen, Nantglyn.

Arweiniai 'Hiraethog' yng ngwleidyddiaeth Cymru drwy'r Wasg ac oddi ar lwyfan. Cychwynnwyd Yr Amserau yn Lerpwl yn 1843, ac ef yn olygydd hyd 1852. Hwn oedd y newyddiadur Cymraeg cyntaf i lwyddo. Rhoes 'Llythyrau'r Hen Ffarmwr' nerth i'w hoedl. Ymdrinient yn nhafodiaith henfro'r golygydd â phynciau fel crefydd a'r wladwriaeth, Deddfau'r Yd, addysg, Mudiad Rhydychen, a Phabyddiaeth. Radicaliaeth Lloegr a'i hysbrydolai'n bennaf. Deffrodd Gymru'n wleidyddol, ac i'r

Amserau y mae rhan helaetha'r diolch. Unwyd yr *Amserau* a'r Faner yn 1859. Rhoed sylw helaeth i wleidyddiaeth Ewrop hefyd. Cefnogodd Mazzini a Garibaldi ym mrwydr rhyddid yr Eidal, a Kossuth yn Hwngari yn erbyn Awstria. Cyfarfu Hiraethog â Mazzini, a gohebai'r ddau â'i gilydd am ysbaid; a daeth dirprwyaeth o Hwngari i ddiolch iddo am ei gefnogaeth. Pleidiodd ryddhad y caethion yn America, yn bennaf drwy ei lyfr *Aelwyd F'ewythr Robert*, a seiliwyd ar *Uncle Tom's Cabin*. Ef oedd 'tad' y ddarlith boblogaidd, a throes hi'n gyfrwng i ledaenu ei ffydd wleidyddol, ac i hyfforddi ar bynciau fel seryddiaeth, daeareg, a 'Pantycelyn.'

Y mae swm ei farddoniaeth yn enfawr. Cyhoeddodd *Gweithiau Barddonol Gwilym Hiraethog*, 1855, lle ceir ei awdl i 'Heddwch,' sy'n cynnwys y cywydd enwog i'r gof, a'r gân 'Atgofion Mebyd'; *Emmanuel*, i, 1862; ii, 1867, arwrgerdd hirfaith yn y mesur di-odl; *Twr Dafydd, sef Salmau Dafydd ar Gân*, 1875; *Cathlau Henaint*, 1878. Ei emyn mwyaf adnabyddus yw 'Dyma gariad fel y moroedd.' Mewn rhyddiaith ceir *Helyntion Bywyd Hen Deiliwr*, 1877 - cafwyd argraffiad newydd yn 1940; *Llythyrau'r Hen Ffarmwr*, 1878 - detholwyd o'r *Amserau*, caed detholiad arall yn 1939; *Cyfrinach yr Aelwyd*, 1878; *Cofiant y Parch. W. Williams o'r Wern*, 1842 - troed i'r Saesneg gan J. R. Kilsby Jones yn 1846; *Rhydd-weithiau Hiraethog*, 1872; Y Dydd Hwnnw, 1862, drama ar droad allan y ddwy fil yn 1662; *Darlithiau Hiraethog*, 1907. Ymhlith ei weithiau diwinyddol ceir *Y Cyfarwyddwr*, 1833, holwyddoreg ar brif bynciau'r ffydd Gristnogol; *Traethawd ar Grefydd Naturiol a Datguddiedig*, 1841; *Providence and Prophecy*, 1851; *Nodiadau ar yr Epistol at yr Hebreaid*, 1866; *Koheleth*, 1881, cyfrol o bregethau, ac ail eto yn 1910. Dyfarnwyd iddo yn 1882 fathodyn cyntaf Cymdeithas y Cymmrodorion, ond bu farw cyn ei dderbyn.

HENRY REES (1837 - 1908), gweinidog

Mab William Rees. Dechreuodd bregethu yn 1856. Bu yn athrofa Aberhonddu (1859-1862), ac yna'n weinidog yng Nghaerlleon Fawr (1862-1885) a Bryngwran (Môn) o 1885 hyd ei ymddeoliad yn 1897. Bu farw 24 Chwefror 1908. Cyhoeddwyd cofiant iddo, gyda rhai o'i bregethau, gan R. P. Williams, yn 1909.

Awduron

Y Parchedig Thomas Eirug Davies, (1892 - 1951)

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Ffynonellau

Thomas Roberts, David Roberts, *Cofiant y Parch. W. Rees, D.D. (Gwilym Hiraethog)* (Dolgellau 1893)

E. Rees, Elvet Lewis (gol.), *William Rees a Memoir*

Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru, v, 407-12

Y Gwyddoniadur Cymreig (1889–96) (ail arg.), x, 799-811

Welsh Religious Leaders in the Victorian Era (Llundain 1905), 204-27

T. Eirug Davies, 'Cyfraniad Dr. William Rees (Gwilym Hiraethog) i Fywyd a Llên ei Gyfnod' (traethawd M.A. Prifysgol Cymru, 1931)

R. A. Johnson, adolygwyd gan Mari A. Williams, Rees, William [pseud. Gwilym Hiraethog] (1802–1883), *Oxford Dictionary of National Biography*, (cyrchwyd Hydref 2019)

R. Hughes, *Enwogion Môn / Anglesey worthies* (Bangor 1770)

Marwolaeth y Parch Henry Rees, *Y Dysgedydd*, Ebrill 1908, tt.185-186

Ioan Anwyl, Adgofion am y diweddar Barch Henry Rees, Bryngwran, Sir Fon, gynt o Gaerlleon, *Y Dysgedydd*, Gorphenaf 1909, tt.315-318

E. T. Jones, *Seren Gomer*, 1936, 151

Darllen Pellach

R. Prytherch Williams, *Cofiant a phregethau y Parch. Henry Rees, Bryngwran, Môn* (Merthyr Tydfil 1909)

Delweddau

John Thomas, Rev. William Rees, 'Gwilym Hiraethog'

John Thomas, Gwilym Hiraethog

John Thomas, Dr. William Rees, 'Gwilym Hiraethog'

John Thomas, Y Parch. William Rees, D.D. (Gwilym Hiraethog)

John Cochran, Revd. William Rees Liverpool

John Thomas, Chwibren Isaf, Llansannan, old home of Henry & William Rees

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 51286705

Wikidata: Q8017443

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu